Cadernid digidol mewn addysg 2022–23

Rhaglen addysg ac ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru i ysgolion a theuluoedd sy'n darparu cyngor, gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant arbenigol, gyda sicrwydd ansawdd, ar ddiogelwch ar-lein a seiberddiogelwch.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

- Canllawiau apiau newydd i rieni a gofalwyr
- Panel Cynghori i blant a phobl ifanc rannu ei profiadau ar-lein
- Cyngor newydd yn arbennig i blant a phobl ifanc
- Canllawiau newydd i gefnogi llywodraethwyr

Cyfathrebu a hyrwyddo

- Codi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar-lein a seiberddiogelwch i helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein
- Cystadleuaeth flynyddol Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel i blant a'u hysgolion
- Digwyddiadau pwrpasol i gefnogi ymarferwyr addysg a gweithwyr proffesiynol gyda chadernid digidol mewn addysg

Canllawiau a pholisi

- Adolygu'r canllawiau cyfredol gan gynnwys diogelwch ar-lein i lywodraethwyr; rhannu delweddau noeth a lled-noeth; ffrydio byw a diogelu; twyll a heriau ar-lein; a chanllawiau seiber i lywodraethwyr
- Cyngor ac arweiniad newydd i ysgolion i'w cefnogi gyda seibergadernid
- Canllawiau newydd i ysgolion i'w cefnogi i adnabod a herio agweddau beio dioddefwyr
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU ar yr hyn y mae'r Mesur Diogelwch Ar-lein yn ei olygu i Gymru

Ymchwil

- Defnyddio canlyniadau o gynllun peilot ardystio 'Cyber Essentials' y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i lunio'r cymorth i ysgolion yn y dyfodol
- Cefnogi Prosiect DRAGON-S, dan arweiniad Prifysgol Abertawe, yn eu hymdrechion i atal meithrin perthynas amhriodol ar-lein

Adnoddau, offer a gwasanaethau

- Diweddariad blynyddol o becyn adnoddau 360 Cymru ar gyfer ysgolion
- Aelodaeth o'r Internet Watch Foundation (IWF)
- Adnoddau newydd Cod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Hyfforddiant a datblygu

- Hyfforddiant seibergadernid newydd i holl staff ysgolion
- Ymarferion hyfforddi seibergadernid ar gyfer arweinwyr ysgolion
- Hyfforddiant newydd ar aflonyddu rhywiol ar-lein ar gyfer holl staff ysgolion
- Hyfforddiant ar gyfer Person Diogelu Dynodedig
- Hyfforddiant newydd ar gamwybodaeth i staff ysgolion

Cydweithio ac ymgysylltu

- Cydweithio â Chymdeithas Bêl-droed Cymru i godi ymwybyddiaeth o faterion gan gynnwys aflonyddu rhywiol ar-lein a hiliaeth ar-lein
- Ymgorffori arferion gorau a pholisi diogelwch ar-lein drwy ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi Estyn
- Erthyglau newydd 'Barn yr arbenigwyr' gan sefydliadau blaenllaw mewn diogelwch ar-lein a seiberddiogelwch

Am ragor o wybodaeth, ewch i **Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein**

hwb.llyw.cymru/cadwnddiogelarlein

Cadernid Digidol mewn Addysg
Digital Resilience in Education

Hwb®

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45447
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.